

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Chwefror 2011

J COLLINS

Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

(1) 1984 p.27; yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 1993/2448.

YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gilfan sy'n gyfagos â cherbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sydd wedi ei lleoli 120 o fetrau i'r gogledd o'r bont droed a adeiladwyd ar linell yr hen Ffordd Rufeinig yn Rhuallt yn Sir Ddinbych.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CILFAN Y GERBYTFFORDD TUA'R DWYRAIN, RHUALLT, SIR DDINBYCH) (GWAHARDD CERBYDAU RHAG CAEL MYNEDIAD) 2011

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi a hwnnw'n Orchymyn sy'n dod i rym ar 7 Chwefror 2011.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd cerbydau, ac eithrio cerbydau awdurdodedig, rhag mynd i mewn i'r gilfan a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn a dirymu, i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darn o gefnffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn, Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cilfannau Amrywiol, Rhuallt – Travellers' Inn, Clwyd) (Cyfyngu ar Aros) 1993.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 3 Chwefror 2011, gellir archwilio copi o'r Gorchymyn a'r plan yn rhad ac am ddim yn ystod yr oriau agor arferol yn Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru, Uned 91, Llys Bowen, Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0JE neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os yw unrhyw berson yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail:

- a. nad yw o fewn pwerau Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. bod ei fuddiannau wedi cael eu rhagfarnu'n sylweddol oherwydd methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 3 February 2011, wneud cais i'r Uchel Lys am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Parhaol/ 2011).

Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth, Tai ac Adfywio, Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

M D BURNELL

Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3
Llywodraeth Cynulliad Cymru

YR ATODLEN

Y darn hwnnw o'r gilfan sy'n gyfagos â cherbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sydd wedi ei lleoli 120 o fetrau i'r gogledd o'r bont droed a adeiladwyd ar linell yr hen Ffordd Rufeinig yn Rhualt yn Sir Ddinbych.